# Athrawon!... A oes gennych ddisgyblion disglair sy'n serennu mewn celf a chrefft?

## Dosbarthiadau Meistri Celf i Blant Mwy Abl a Thalentog

Mae **Criw Celf** yn cynnig rhaglen o hyfforddiant arbenigol i blant sy'n fwy abl a thalentog ym maes celf weledol. Drwy ein rhaglen o ddosbarthiadau meistri arbennig, gydag artistiaid proffesiynol, mae aelodau **Criw Celf** yn cael ...

- **Mynediad i addysg celf ychwanegol, dwys o ansawdd uchel**
- **Meithrin a datblygu sgiliau a dealltwriaeth o gelf weledol a chrefft**
- **Dysgu am yrfaoedd ym maes celf**
- **Cydweithio ag artistiaid i ddatblygu eu potential a'u gallu**
- **Arddangos eu gwaith celf mewn oriel broffesiynol**

## Enwebu eich disgyblion...

Fel athro neu athrawes gallwch enwebu **hyd at 10** o ddisgyblion **Blwyddyn 6** i ymaelodi â'r rhaglen hyfforddiant cyffroes hwn.  Gyrrwch ddetholiad o'u gwaith celf atom er ystyriaeth erbyn **10yb 13 o Orffennaf 2016**, darllennwch am yr hyn sydd ei angen ei gyflwyno ar y dudalen nesaf...

**DYDDIAD CAU!**
**13 Gorffennaf**

CEFNOGI CREADIGRWYDD
CYNGOR CELFYDDYDAU CYMRU
THE ARTS COUNCIL OF WALES
SUPPORTING CREATIVITY

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

*Cynllun wedi ei gefnogi gan Gyngor Celfyddydau Cymru ac Awdurdodau Lleol*

# Cyflwyno gwaith celf…

Postiwch y canlynol i'r cyfeiriad isod…

- **Hunan bortread 2D neu 3D wedi ei greu gan ddefnyddio unrhyw gyfrwng neu gyfuniad o gyfryngau (2D dim mwy na maint A3).**
- **Darlun 2D o'r olygfa drwy unrhyw ffenestr gan ddefnyddio unrhyw gyfrwng neu gyfuniad o gyfryngau (dim mwy na maint A3).**
- **Paragraff byr yn egluro pam yr hoffent ymaelodi â Chriw Celf (dim mwy na 50 gair).**

Gwnewch yn siŵr bod enw ac oed y plentyn, enw'r ysgol a chyfeiriad cartref a rhif ffôn cartref y plentyn ar gefn pob darn o waith. Gallwch lawr-lwytho labeli oddi ar ein gwefan os yr hoffech. Cofiwch mai gallu naturiol y plentyn yr ydym angen ei weld wrth asesu'r gwaith celf. Mae'n hanfodol bwysig nad yw'r plentyn yn derbyn cymorth oedolyn nag artist i greu eu gwaith.

Bydd panel o artistiaid yn dethol y plant llwyddiannus ac fe fyddwn yn eu gwahodd i fynychu rhaglen o ddosbarthiadau meistri fydd yn cychwyn ym mis Medi/Hydref 2016; cychwyn da i'w blwyddyn gyntaf yn yr ysgol uwchradd!

***Mae modd i blant a'u rhieni hunan-enwebu yn ogystal. Bydd y dyddiad cau a'r manylion ar gyfer hunan-enwebu yn cael ei gyhoeddi ar ein gwefan yn fuan!***

# Cyfeiriad…


Criw Celf Gwynedd, Archifdy Caernarfon,
Cyngor Gwynedd, Stryd y Jêl, Caernarfon,
Gwynedd. LL55 1SH
**Rob Jones: 07711 269 202**
robertowenjones11@gmail.com


**Dyddiad Cau**
**13 Gorffennaf**

**Ffi ymaelodi i rai llwyddiannus £35**

www.criwcelf.co.uk